Cofnodion Cyfarfod 13 Mai 2014 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.

YN BRESENNOL

Ken Brown (KB)	Daniel Williams (DW)
Lena Ashley (LA)	Louise Hughes
Iestyn Harris (IH)	Bethan Jones
George Smith (GS)	Nerys John (NJ)
	Gwyneth Williams
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	

1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
	Unwaith yn rhagor croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd. Dywedodd bod Tîm Peldroed Y Felinheli wedi cael Tymor llwyddiannus iawn a gofynnwyd a byddai'r Clerc yn anfon gair at y pwyllgor i ddatgan balchder y Cyngor yn y tîm. **Ymddiheuriadau**: Pat Jones, Sarah Riley, Siân Gwenllïan	**CLERC**
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	George Smith yn datgan diddordeb ar eitem 9.1.	
3.0	**COFNODION**	
	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod misol mis Mawrth a Mis Ebrill. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ond bod angen newid Cyngor Gwynedd am Mantell Gwynedd yn eitem 12.1(Mawrth).	**CLERC**
4.0	**MATERION YN CODI**	
4.1	**Refferendwm** - Er bod trafodaeth fer wedi bod ynglŷn â'r eitem hwn penderfynwyd disgwyl i drafod y mater ymhellach hyd nes oedd y Cynghorydd Siân Gwenllïan yn bresennol. Cynigwyd ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorwyr Iestyn Harris a Daniel Williams.	**CLERC**
4.2	**Glan y Môr** - dywedodd y Clerc bod ymweliad safle i'w gynnal yn niwedd mis Mai pan fyddai'r Cynghorydd Siân Gwenllïan yn gallu bod yn bresennol. Er hynny roedd Cyngor Gwynedd wedi anfon manylion o'r gwaith codi bolardiau ar y man gwyrdd o flaen Garddfon. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cynllun ond nid oedd y Cynghorwyr yn awyddus i weld bolardiau bach fel y rai sydd wedi eu gosod oherwydd bod achosion wedi bod yn y gorffennol lle'r oedd pobl wedi baglu drostynt. Penderfynwyd byddai barn y cyngor byddai bolardiau pren uwch yn well yn cael eu rhoi i swyddogion Cyngor Gwynedd pan fyddant yn ymweld ar safle.	
4.3	**Cais Cynllunio C14/0106/20/LL - 27 Brynffynnon y Felinheli LL56 4SX.** Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod y Cynghorydd Siân Gwenllïan wedi datgan diddordeb yn y mater hwn. Roedd trigolyn o Frynffynnon wedi cysylltu â'r Cynghorydd Daniel Williams ynglŷn â'r cais cynllunio hwn a'i fod yn awyddus i gael adroddiad ar y mater. Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod y Cyngor Cymuned wedi Gwrthwynebu'r cais ac oherwydd	

	bod Siân Gwenllïan wedi datgan diddordeb byddai Cynghorydd Sir John Wyn (Pentir) yn lleisio ar ran y Cyngor Cymuned ym Mhwyllgor Cynllunio Gwynedd. Penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio oedd atal gwneud penderfyniad hyd nes bod ymweliad safle wedi ei drefnu.	
5.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
5.1	Adroddodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi derbyn prisiau ar gyfer gwaith i lawr y neuadd. Pris gosod fent oedd £323 & TAW a'r gwaith i'r llawr yn £280 & TAW. Roedd wedi cysylltu â'r pensaer ar gyfer iddo hysbysu'r adeiladwr o'r diffygion er mwyn iddo gael y cyfle i wneud yn iawn y diffygion. Nid oed ymateb wedi ei dderbyn hyd yma.	**DW**
5.2	Ynglŷn â'r gwaith a'r sain mae pedwar pris wedi ei dderbyn ac mae'r prisiau rhwng 8 - 12 mil. Efallai bod modd gwneud ymholiadau a Mantell Gwynedd i edrych oes modd cael grantiau ar gyfer y gwaith. Roedd y Cynghorydd Daniel Williams hefyd yn awyddus i wneud profion ar ansawdd y sain drwy godi llenni.	**DW**
5.3	Ynglŷn â'r gwaith i do'r neuadd mae pris am sgaffald heb ei dderbyn ond tybia bydd yn uchel. Bydd modd gwneud cais i'r yswiriant oherwydd mai difrod ar ôl y tywydd garw yw.	
6.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
6.1	Cadarnhawyd gwariant mis Ebrill.	
6.2	Roedd yswiriant blynyddol yn ddyledus a dim ond oddeutu £4 o wahaniaeth oedd i'r pris o'r llynedd. Dywedodd y Swyddog Ariannol bod gwerth eiddo'r cyngor wedi ei osod ar £927,000.00 sef cost ail adeiladu'r neuadd. Nid oedd Y Maes Parcio na'r Cloc wedi ei nodi. Er hynny mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Cytunwyd bod y Swyddog Ariannol yn talu'r swm am yr yswiriant ar gyfer eleni	**SWYDDOG ARIANNOL**
7.0	**GOHEBIAETH**	
	Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Clwb Peldroed Ieuenctid a Raibows y Felinheli.	
8.0	**ADRODDIAD Y CLOC**	
	Cafwyd adroddiad manwl pellach ynglŷn â'r cloc gan y Cynghorydd Daniel Williams. Dywedodd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â phensaer ac wedi trio cysylltu â Swyddog Cadwraeth Cyngor Gwynedd ond heb gael llwyddiant. Dywedodd y Pensaer byddai rhaid cael Swyddog i edrych ar ôl y prosiect. Dywedodd y Clerc y byddai yn Cael enw cwmni sydd yn delio gyda materion CDM. Bydd y Cynghorydd Daniel yn parhau a'r prosiect atgyweirio ac yn adrodd yn ôl i'r cyngor fel bo angen.	**DW**
9.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
9.1	C14/00349/20/LL – estyniad unllawr ar gefn yr eiddo – 20 Stryd Bangor y Felinheli LL56 4JD – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
10.0	**ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT**	
	Adroddwyd bod y gwair wedi derbyn toriad. Mae angen gosod plac ar sedd coffa Mrs Pat White. Y Swyddog Ariannol i archebu'r plac.	**SWYDDOG ARIANNOL**

11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
11.1	Mae cwynion yn parhau i gael eu derbyn gan yr heddlu. Y Cwynion mwyaf sydd yn cael eu derbyn yw parcio o fewn y safleoedd ar gyfer yr anabl a'r defnydd o "traffic cone" i gadw lle. Trefnwyd ymweliad safle yn y maes pario am 7 y.h ar yr ugeinfed o Fai.	**DW, KB, GW, BJ**
11.2	Mae'r Cadeirydd ar ddeall bod y Lon Las yn mynd i dderbyn gwaith o dorri'r gwair a mieri yn fuan a bydd yn trefnu i Mr Morris i wneud gwaith chwynnu yn Maes Parcio ac ymylon y llwybr tuag at y Lon Las. Adroddwyd hefyd bod oglau drwg (draeniau) yn dod oddi wrth y Lon Las. Dywedyd bod gwlybaniaeth yn y cae cyfochr a'r Lon Las ac efallai effaith hyn yw'r oglau.	**KB**
12.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
12.1	Cafwyd adroddiad bod cyflwr llwybr Allt Gam yn ddrwg oherwydd gôr dyfiant a bod cerddwyr yn cael eu rhwystro i gerdded y llwybr oherwydd y gwaith adeiladu sydd yn mynd ymlaen. Hefyd mae'r gwastraff llechi yn symud dan droed oherwydd graddiant y llwybr. Y Clerc i gysylltu ag Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd.	**CLERC**
12.2	Mae rhai o'r meinciau angen eu paentio.	**KB**
13.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Gweler Atodiad A	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod heb glywed oddi wrth Swyddog Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru i ddyddiad gyda'r cynllun hyd yma	
15.0	**UNRHYW FATER ARALL**	
	Dwedodd y Cynghorydd Nerys John bod y Cynghorydd Siân Gwenllïan wedi gofyn iddi a byddai yn rhoi gerbron y Cyngor esiampl o holiadur oddi wrth Gyngor Cymuned Llanllyfni ynglŷn â chael arolwg anghenion tai a byddai o fudd os byddai Cyngor Cymuned y Felinheli yn gwneud arolwg er mwyn rhoi'r canlyniadau tuag at y Cynllun datblygiad lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Y Clerc i wneud ymholiadau a'r swyddog perthnasol os oes modd anfon sylwadau pellach ac os oes faint o amser sydd i wneud hynny.	**CLERC**
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 9:30 yn yr hwyr.	
Llofnod:	Dyddiad:	

Adroddiad Cynghorydd Siân Gwenllian Mai 2014

Cae'r Ysgol: Cafwyd cwynion am gyflwr y cae ac rwyf wedi gofyn i'r Cyngor Sir edrych mewn i hyn.

Llwybr Allt Gam ger Trem y Foel: rwyf wedi gofyn i swyddogion y Cyngor edrych ar ddiogelwch y llwybr ger y llethr newydd sydd wedi ei chreu.

Arafu traffig yn Y Wern: Mae'r Aelod Seneddol yn ceisio cael mesurau arafu traffig mewn rhan ble mae llawer o blant yn chwarae.

Biniau sbwriel Stryd Bangor: Mae'r Cyngor Cymuned wedi cael sicrwydd y bydd y tri bun newydd yn cael eu gosod yn lle'r rhai sydd wedi diflannu yn ddiweddar.

Lan y Mor : mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn edrych ar ffyrdd o wella rhan o Lan y Mor ger y llithrfa gyferbyn a Gardd Fon. Mae ceir yn parcio ar y gwair yma. Fe fydd y Cyngor Cymuned yn trafod y cynllun sydd wedi ei gyflwyno a byddaf yn gofyn am drafodaeth llawn efo pobol yr ardal hon cyn i unrhyw beth ddigwydd.

- **Ffens rownd y cae chware ar Lan y Mor**: Mae rhai problemau wedi codi gyda pherchnogion cŵn yn gollwng eu cŵn i'r cae chwarae tra mae nhw yn eistedd yn y car. Mae'r Cyngor Sir wedi addo arwyddion newydd a hefyd bydd y wardeniaid yn cadw golwg ar y sefyllfa. Rydym yn disgwyl am ddyddiad ar gyfer ymweliad gan swyddogion yn ôl yr addewid. Mae angen clirio darnau o goncrid.

Lon Las Menai ger Cerrig yr Afon: Cafodd y bont uwchben y Lon Las ei thrwshio.

Llwybr yr Arfordir drwy'r marina a Faenol: Mae'r gwaith cyfreithiol yn mynd mlaen er mwyn dynodi'r darn ger y Lodge yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru fydd yn golygu y bydd mynediad unwaith eto o'r marina i'r Faenol.

Half Way: Cefais gyfarfod rhwng swyddogion cynllunio a pherchennog newydd yr Half Way ar ôl i'r y cais i drosi'r Half Way yn 6 uned (C14/0042/20/LL) gael ei wrthod gan y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r tri cais arall ar gyfer y safle yma wedi eu tynnu yn ôl. . Rhaid marchnata y dafarn fel busnes am 12 mis. Mae hawl i gyflwyno cais ar gyfer tai ar ran o'r maes parcio i ochr Caernarfon ond does dim i law hyd yma.

Llifogydd: Mae'r Cyngor Cymuned yn aros i weld manylion cynllun atal llifogydd ger y cae chwarae ar Lan y Mor.

27 Brynffynnon: Gohiriwyd trafodaeth ar gais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer 27 Brynffynnon er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio gynnal cyfarfod ymweld. Bydd yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Cynllunio ar Mehefin 16. Mae'r Cynghorydd John Wyn Williams (Pentir) yn gweithredu ar rhan y pentref gan fy mod wedi datgan diddordeb yn y cais hwn.

Llwybr Stepiau Cei: mae Cyngor Gwynedd yn monitro'r wal ger y llwybr. Mae proses gyfreithiol yn mynd mlaen ynglŷn a'r wal/tir-lithriad uwchben Hen Gei Llechi er mwyn symud at sefyllfa lle bydd mod ail agor y rhan o'r lon sydd wedi cau islaw. Mae'r Aelod Seneddol, Hywel Williams, wedi sicrhau dyddiad cyn diwedd Mai ar gyfer cynnal cyfarfod efo Mr Iwan Evans o Gyngor Gwynedd er mwyn ceisio symud pethau ymlaen yn gynt. Mae arafwch y broses yn rhwystredig i bawb.
Y Doc : Mae caffi'r Swellies wedi agor ger y Doc ac fe fydd bar gwin yn agor ger siop Harddwch Maryam. Mae'n braf gweld gwelliannau yn y rhan yma o'r pentref. Gofynnais am arwyddion baw cŵn (doedd dim yn y rhan ym o'r pentref) ac fe fydd sbwriel yn cael ei gasglu o du allan i'r tai yn Porth y Llechen (ar ôl cryn bwyso) yn hytrach na bod y biniau yn flêr ger y bont yn y Doc.

Gwefan: Mae gwefan www.felinheli.org yn parhau i fod yn boblogaidd efo 50,499 hits yn mis Ebrill. Cofiwch anfon eich lluniau a newyddion am ddigwyddiadau i post@felinheli.org.

Gwyliau : tra rwyf ffwrdd (tan Mai 20) gellwch drafod unrhyw fater yn ymwneud a'r pentref gyda Cadeirydd y Cyngor Cymuned Ken Brown. Diolch Ken a diolch am dy gefnogaeth a dy waith dros y pentref.
kennethbrown445@btinternet.com ; 07831400139.